

## **Beirniadaeth Barddoniaeth BL 9**

### **gan Marian Evans**

Cyn manylu ar yr ymgeiswyr, hoffwn wneud sylwadau cyffredinol.

1. Diwyg. Erbyn hyn dylai pob ymgeisydd fod o fewn cyrraedd l brosesydd geiriau/cyfrifiadur. Mae hyn yn creu diwyg glân, sy'n ei gwneud yn haws ei ddarllen

2. Mae posibl rwydd fod tipyn o'r creu yn dilyn gwers yn yr ysgol i drafod y teitl? Gall hyn fod yn demtasiwn i athrawon arwain y plant at un syniad/darlun.

Yn benodol eleni, cafwyd nifer o gerddi yn dilyn trywydd rhyfel, a'r un geiriau yn ymddangos.

3. Pwynt dadleuol.

A ddylid golygu/cywiro'r Gwaith cyn ei gyflwyno? Cafwyd cam-dreiglo, cam-sillafu a gwybodaeth am genedl-enwau.

Mater o farn efallai, ond mae darn glân, cywir, yn ennyn sylw'r beirniad.

Er hwyluster, rydw i wedi eu trefnu mewn rhyw fath o grŵpiau, sy'n ei gwneud yn haws cymharu a mynegi barn. Ydy ail ddrafftio wedi prinhau? Yn sicr buasai tipyn ohonynt yn elwa.

Grwp 1

Ar wahan i'r 3 ddaeth i'r brig, fe fwynheais y 4 cerdd yma'n fawr.

Stori am ysgol feithrin a'r ffrae am y ddoli glwt sy gan MWNCI BACH  
Roedd ôl profi'r stori, ac aeddfedrwydd yn y mynegiant.

Cafwyd cyflythrennu da – e.e “enfys o eliffantod o'r enw Elfed “ – ac mae Elfed yn hynod liwgar!

Cyffyrddiadau megis

“Cwtsho clos a mwytho clên”

“Anti Sian wrth y drws yn cyfarch ei chywion”.

Cymariaethau megis”trwyn bach smwt fel botwm”

Cerdd yn llifo – da iawn.

Gallai unrhyw "teenager" uniaethu a phrofiad MAB-INOGI- o edrych yn y drych a gweld gwendidau corfforol, a cheisio gwella'r darlun trwy roi lliw ar y gwallt

Trosiadau da "fy myngalo o dalcen"

"Dyma fy nghoesau di-bendraw"

"Coesau corrynog"

Yna "cawodi'r ffisyc" – shampw

Ond ar ol y lliwio "dim un gwelltyn (nid blewyn, sylwer)ar ôl.

Mae'n gorffen gyda'r ddihareb

"Da gadael pob Da fel y mae.

Cerdd glyfar!

Mae TANWEN yn son am ffrae gyda'l rhieni.

Mae am symud allan ,gan feddwl bod ei rhieni yn gas

Yn y diwedd, gwyr ei bod wedi"actio'n ffôl"a "fi'n miso chi"

Mae'r gerdd yn syml, yn nodweddiadol o blentyn yr oed yma.

Gwendid y gerdd yw ei bod yn rhy syml mewn manau - ac mae hyn efallai yn deillio o'r odl – ac felly'n wan

"Am wneud i mi hwfro fy stafell wely

Hyd yn o'd os nad yw'n smeli"

"Gobeithio cewch chi ferch fach neis

Neis, neis fel pwdin reis"

Pe bai'n tacluso ychydig arni, mae'n siwr y buasai Dewi Pws yn ei mwynhau!!

Defnyddiodd CYMRU "font " wahanol ar y cyfrifiadur i ddynodi sgwrs/ffrae rhwng mam a merch.Mae'n meddwl nad hi oedd ar fai.

Ceir disgrifiad da o ddechrau'r ffrae, fel pe bai'r tywydd yn troi - yr haul yn mynd a'r cymylau'n crynhoi

"Fel haid o ddrudwy yn un ton

Uwchben daeth cymylau duon"

Mae wedi llwyddo yn ei hymson, fel merch yn cael cam, i ddefnyddio arddull gywyddol - her fawr i rywun o'l hoed.

Diwedd siomedig sydd l'r gerdd – oherwydd dewis yr odl

”Ond arhoswch, ro'n l'n ddiniwed!

A dw i'n edrych fel drws sied!”

## Grwp 2

Rhoddwyd y grwp yma gyda'i gilydd, oherwydd y dewis i ganu am Ryfel.

Mae patrwm i rediad WYDDFA ac, fel llawer yn y grwp yma yn holi “Pam”, sef MEG, JOHN a JON JONES. – Ai dylanwad trafod yn y dosbarth sy yma?

Defnyddia STADROS swm y “chwiban yn merwino ‘nghlustiau”, ac mae ganddo odl gadarn, ond ni cheir unrhyw newydd-deb yn y cerddi hyn. Yn yr un modd nid yw cerdd brudd, gywir EFA yn dangos unrhyw ffresni yn ei chanu. Hoffais pennill 3 ganddi, ond yn fy marn i hoffem pe bai wedi newid trefn y llinellau l ddweud

“ffarwelia'r haul

â'r caeau estron llwm

A gadael y dynion digalon

I lusgo'u traed blinedig dros y caeau”

Mae'n llifo'n well – i mi!

Rydw l hefyd yn ei chael yn anodd l ddeall rhediad\_/llinyr arian BOLLTEN.

Mae CYMRU AM BYTH yn cymysgu adrodd am y gyflafan a son amdano'l hun. Mae'n swnio fel pe bai eisiau dod a'r gerdd l ben

”Dario, dw i newydd ddisgyn ar fy ysgwydd”

Ceir disgrifiad gan TECWYN o'r gyflafan, ond mae'n gorffen trwy ddweud fod

“bwled yn chwyrluo tuag ataf,

Saethu drwy fy nghalon lan”

Anodd yw gweld sut mae'r bardd wedi disgrifio'r rhyfel, ac yntau wedi ei ladd?

Mae gan TEGWEN TEBOT nifer o ddelweddau – rhai am y rhyfel, a rhai am Nikki,Georgi a Willy yn dadlau. Mae'n anodd deall sut mae'r delweddau yn clymu.

Buasai'n haws darllen cerdd JIRAFF STREIPIOG pe bai o/hi wedi ei rhoi ar gyfrifiadur – er mwyn gweld y safbwyntiau o ran anfon merched i'r gad.

Trueni fod ôl brys arni.

Profiad personol sydd gan Ginge a Celt. Tuedda Ginge I neidio o ddisgrifiadau I brofiadau personol,ac , felly, mae'n anodd ei dilyn.

Yng ngherdd CELT mae'r odl yn cyfyngu ar y dewis o air – “cwffio” “paffio” “fy moch”a “yn groch” ac felly yn cyfyngu ar beth mae eisiau dweud.

Mae cerddi HAUL,MOP a SBIGOGLYS i gyd yn gywir, ond hoffwn, efallai fod wedi gael rhagair o eglurhad er mwyn gallu eu deall,a'u gwerthfawrogi yn fwy.Dw i'n cael trafferth i weld dilyniant a deall neges y gerdd.

Mae'r ymgeisydd di-enw(371/39( neu D64783) wedi llunio cerdd a dilyniant iddi, ond y rhan siomedig yw y diwedd. Mor “ffwr – bwt”

Grwp 3.

Amrywiol themau sydd yma.

Yng ngherdd DWYNWEN i'r santes a'l chwedl,dydw i ddim yn siwr ble mae'r cwmpo mas yn y gerdd. Gwn am ei ffræe gyda'l thad, Brychan a'i chariad Maelon,ond ychydig o son sydd am hyn. Gwell fuasai son mwy er mwyn cyfiawnhau'r teitl.

Anodd yw gweld mai gwaith person oedran 11 I 13 sydd yng ngwaith CANDELAS,SUPERTEDE, GWALLT CYRLIOG a SAIN GWYBOD.Mae'r eirfa a'r arddul yn swnio tu allan i'w ffiniau, a'u hystod profiad?

Ond mae cerddi DAWNSWRAIG,CELYN,ARENIG,CAS PENSILIAU a BOBI yn son am ffræe – profiadau plentyn.

Oes rhyw fath o foeswers yn deillio o'r rhain? Angen rhoi agwedd fach wahanol – y tueddiad yw adrodd hanes y ffræe. Rhaid dweud fod

DAWNSWRAIG yn dod I rhyw gasgliad ei bod, yn y diwedd, yn unig ar ol y ffrae?

Plant o dan warchae yw thema TYST.

Mae Mari yn cael pwl o hysteria, ond dwi'n cael trafferth I ddeall bod ffrae wedi bod!

Mae GARETH BALE (rhif 3?) a TINTIN wedi mynd ar ol ffraeo ym myd chwaraeon. Yn anffodus mae'r cerddi yn ymdebygu I adroddiad papur newyd – nid dadansoddiad o'r ffrae.

Dewis pa raglenni I weld ar y bocsy sy'n ennyn ffrae yng ngherdd GARETH BALE(eto?!!)Efallai buasai'n syniad iddo/iddi newid diwedd y llinellau"roeddwn i"/"ty ni" /"gweiddi". Mae diwedd I hon,sef"

"Am be gawn ni ffraeo nesaf yn ty ni?"

Byrdwn y neges ydy– fod heddwch yn teyrnasu cyn belled a bod pawb yn rhythu ar y bocsy,

Cefais hi ychydig yn anodd deall trywydd y robotiaid yng ngherdd TWM.

Mae'n disgrifio brwydr y robotiaid, eto, ar y diwedd mae'n son am

"ffrae sydd ar y gorwel"

Mae pennill olaf yng nherdd DU A GWYN yn gwrth-ddweud y stori am fwyd yn difethaf ar ddydd Nadolig, a phawb yn gweld bai, ond, rhywsut, llwyddant i rannu brechdan dwrci efo'r dyn ar y stryd.

Mae yma gyffyrddiadau hyfryd megis

"rhegi wrth y rhewgell

"llond sinc o ddagrau.

Oes angen ail – feddwl am y diwedd?

**Diolch am rannu'ch cerddi efo fi'a daliwch ati i fireinio'ch crefft**